Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

**Atodiad 2**

# Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (Ac Eithrio'r Gwasanaeth Bwyd Anifeiliaid*)

Dyddiad archwilio: 18 – 22 Awst 2014

Dyddiad yr ymweliad dilynol: 27 – 28 Medi 2023

(*) Nid yw'r camau mewn perthynas â bwyd anifeiliaid sy'n codi o'r archwiliad wedi'u cynnwys. Cyflwynwyd model gweithredu bwyd anifeiliaid rhanbarthol yng Nghymru o fis Ebrill 2015.

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| 3.18 (i) Sicrhau bod Cynlluniau'r Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yn y dyfodol yn cydymffurfio â'r Canllaw Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid darparu amcangyfrif o'r ystod lawn o ofynion y gwasanaethau ynghyd â dadansoddiad o'r adnoddau sydd eu hangen yn erbyn y rhai sydd ar gael. Dylid cynnwys cynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodir yn ogystal â chostau manwl. [Y Safon – 3.1] | Glas | Bydd y Cynllun Gweithredu Gwasanaeth Cyfraith Bwyd ar gyfer 2017/18 yn cael ei gynhyrchu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth o hyn ymlaen, a bydd yn mynd i'r afael â meysydd penodol a sylwadau a nodwyd i'w gwella yn yr adroddiad archwilio mewn perthynas ag adnoddau a galw. | | Cwblhawyd |
| Dylai'r awdurdod fynd i'r afael ag unrhyw amrywiad o ran bodloni'r Cynllun Gwasanaeth yn ei Gynllun Gwasanaeth dilynol. [Y Safon – 3.3] | Glas | | | Cwblhawyd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 4.7 (i) Sicrhau bod yr holl ddogfennau a gweithdrefnau cofnodedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a phryd bynnag y bydd newidiadau i'r ddeddfwriaeth neu i ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 4.1] | Glas | **Hylendid Bwyd / Safonau Bwyd:** Mae'r adolygiad blynyddol o bolisïau/gweithdrefnau mewn perthynas â'r gwasanaeth cyfraith bwyd wedi'i gynnwys fel cam gweithredu parhaus yng Nghynllun Gweithredu'r Gwasanaeth Cyfraith Bwyd. Bydd polisïau/gweithdrefnau'n cael eu diweddaru rhwng yr adolygiadau blynyddol lle bo angen. O ganlyniad i'r cydweithio rhwng Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Thorfaen, mae adolygiad o'r holl bolisïau/gweithdrefnau wedi'i gynllunio ar gyfer 2017/18 er mwyn cynhyrchu un fersiwn o bob dogfen, lle bynnag y bo'n rhesymol ymarferol. | | Cwblhawyd |
| 5.12 (i) Adolygu, diwygio a gweithredu ei gynllun dirprwyo a gweithdrefnau awdurdodi er mwyn sicrhau bod swyddogion wedi'u hawdurdodi'n briodol o dan yr holl statudau perthnasol yn unol â'r cynllun, a bod awdurdodiadau'n seiliedig ar asesiad o gymhwysedd yn unol â'r Codau Ymarfer a'r canllawiau a gyhoeddir yn ganolog perthnasol. [Y Safon – 5.1] | Glas | Diwygiwyd y cynllun dirprwyo drwy ddarpariaethau cyfansoddiadol yr Awdurdod ym mis Awst 2016. Mae'r pŵer i awdurdodi pob swyddog unigol bellach yn nwylo Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio. Wrth i bob awdurdodiad newydd gael ei gyflwyno i'r Cyfarwyddwr i'w gymeradwyo yn y dyfodol, bydd yr asesiad cymhwysedd i lywio lefel yr awdurdodiad yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â'r cais am awdurdodiad. | | Cwblhawyd |

| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| 5.12 (ii) Adolygu a, lle y bo angen, diwygio awdurdodiadau swyddogion er mwyn sicrhau bod lefel awdurdodiad swyddogion yn cael ei nodi, ac yn cyd-fynd â'u cymwysterau, eu hyfforddiant, eu profiad, a'r Cod Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.3] | Glas | **Hylendid Bwyd / Safonau Bwyd:** Mae awdurdodiadau swyddogion a'r broses awdurdodi wedi'u diwygio er mwyn ystyried y materion a nodwyd yn ystod yr archwiliad. Mae'r adolygiad wedi cynnwys y gofyniad i ddarparu'r asesiad cymhwysedd ar y cyd â'r cais am awdurdodiad ar gyfer unrhyw awdurdodiadau yn y dyfodol. | | Cwblhawyd |
| 7.20 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon – 7.2] | Glas | **Hylendid Bwyd:** O'r 10 safle a oedd yn destun archwiliad o ran hylendid bwyd, dim ond un safle a nodwyd gan archwilwyr fel un a allai fod angen sgôr amgen o ran hyder mewn rheolwyr a gweithdrefnau rheoli. Mae pob swyddog wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant cysondeb y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ers yr archwiliad, a chanfuwyd bod swyddogion wedi cyflwyno sgoriau cyson yn ystod yr ymarfer. Bydd cysondeb o ran sgorio yn parhau i gael ei asesu trwy drefniadau monitro mewnol ac yn ystod unrhyw ymarferion hyfforddi rhyngweithiol ar sicrhau cysondeb. O ran y trefniadau mewn perthynas â fflagio (*red-flagging*), datblygwyd canllawiau ychwanegol ar y cyd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) am y broses | | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | o fflagio, ac mae’r canllawiau hyn wedi’u rhannu â’r holl swyddogion (rhoddir sylw i’r un mater hefyd mewn perthynas â phwynt 7.2(iii) isod). | | |
| **Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.20 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â’r safonau sydd wedi’u pennu gan y gyfraith, a chymryd camau priodol ynghylch unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio sy’n cael ei ddarganfod, yn unol â Pholisi Gorfodi’r awdurdod. [Y Safon – 7.3] | Glas | **Hylendid Bwyd:** Cynhaliwyd sesiwn friffio ar ôl yr archwiliad er mwyn trafod y prif faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliad. Y nod yw ailadrodd yr ymarfer hwn gan ddefnyddio’r hyn a ddysgwyd o archwiliadau Blaenau Gwent a Thorfaen fel hyfforddiant atgoffa ar gyfer staff y ddau Gyngor. Bydd cydymffurfiaeth barhaus â’r gofynion yn cael ei hasesu drwy fonitro mewnol. | | Cwblhawyd |
| 7.20 (iii) Diwygio ei weithdrefnau cofnodedig i nodi ei ddull o gynnal arolygiadau rhannol a datblygu’r trefniadau ar gyfer fflagio ymhellach. [Y Safon – 7.4] | Glas | **Hylendid Bwyd:** Ni chaniateir arolygiadau rhannol bellach, ac asesir cydymffurfiaeth â hyn trwy fonitro mewnol. Datblygwyd canllawiau ychwanegol ar y cyd â’r ASB ynghylch cofnodi Pwyntiau Rheoli Critigol a’r broses o fflagio. Mae’r canllawiau hyn wedi’u rhannu â phob swyddog. | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| Camau gweithredu ynghylch archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd sy'n ymwneud â gweithdrefnau | Glas | | | Cwblhawyd |
| 7.20 (iv) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn sicrhau na fydd gwybodaeth berthnasol yn mynd ar goll. [Y Safon – 7.5] | Glas | **Hylendid Bwyd:** Cynhaliwyd sesiwn friffio â swyddogion ar ôl yr archwiliad er mwyn sôn am y prif faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliad, a oedd yn cynnwys yr angen i gofnodi achosion o gydymffurfio yn ogystal ag achosion o ddiffyg cydymffurfio. Y nod yw ailadrodd yr ymarfer hwn gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o archwiliadau Blaenau Gwent a Thorfaen fel hyfforddiant atgoffa ar gyfer staff y ddau Gyngor. Bydd cydymffurfiaeth barhaus â'r gofynion yn cael ei hasesu drwy fonitro mewnol. | | Cwblhawyd |
| 7.35 (i) Cynnal arolygiadau safonau bwyd mewn busnesau bwyd newydd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | Glas | **Safonau Bwyd:** Mae'r awdurdod yn gweithredu rhaglen arolygu sy'n seiliedig ar risg sy'n nodi amlder arolygiadau ar gyfer safleoedd sy'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod ymyriadau wedi'u rhaglennu yn cael eu darparu yn unol â hyn yn awr, ac yn y dyfodol. Cynhelir ymweliadau â phob busnes newydd cyn rhoi sgôr risg. | | Cwblhawyd |

| **Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| 7.35 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â’r safonau sydd wedi’u pennu gan y gyfraith, a chymryd camau priodol ynghylch unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodir, yn unol â pholisi gorfodi’r awdurdod. [Y Safon – 7.3] | Glas | Cynhaliwyd sesiwn friffio â swyddogion ar ôl yr archwiliad er mwyn trafod y prif faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliad a oedd yn cynnwys sicrhau bod ffurflenni ar ôl yr archwiliad neu gofnodion eraill yn casglu digon o ddata i gyfiawnhau’r sgôr risg a roddir i fusnes, a bod camau priodol yn cael eu cymryd ynghylch achosion o ddiffyg cydymffurfio. Y nod yw ailadrodd yr ymarfer hwn gan ddefnyddio’r hyn a ddysgwyd o archwiliadau Blaenau Gwent a Thorfaen fel hyfforddiant atgoffa ar gyfer staff y ddau Gyngor. Bydd cydymffurfiaeth barhaus â’r gofynion yn cael ei hasesu drwy fonitro mewnol. | | Cwblhawyd |
| 7.35 (iii) Sicrhau y caiff arsylwadau a wneir yn ystod arolygiad eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn sicrhau na fydd gwybodaeth berthnasol yn mynd ar goll. [Y Safon – 7.5] | Glas | Cynhaliwyd sesiwn friffio â swyddogion ar ôl yr archwiliad er mwyn trafod y prif faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliad a oedd yn cynnwys sicrhau bod arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol. Y nod yw ailadrodd yr ymarfer hwn gan ddefnyddio’r hyn a ddysgwyd o archwiliadau Blaenau Gwent a Thorfaen fel hyfforddiant atgoffa ar gyfer staff y ddau Gyngor. Bydd cydymffurfiaeth barhaus â’r | | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gofynion yn cael ei hasesu drwy fonitro mewnol. | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 8.9 (i) Sicrhau bod y targedau ar gyfer amseroedd ymateb, a nodir yn y gweithdrefnau cwyno, yn cael eu bodloni, a bod canlyniad ymchwiliadau cwynion safonau bwyd yn cael ei gyfathrebu ag achwynwyr. [Y Safon – 8.2] | Glas | Cynhaliwyd sesiwn friffio â swyddogion ar ôl yr archwiliad er mwyn trafod y prif faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliad a oedd yn cynnwys yr angen i sicrhau y cedwir at y drefn gwyno fewnol ar gyfer safonau bwyd a'r angen i ddogfennu cyfathrebiadau i achwynwyr. Y nod yw ailadrodd yr ymarfer hwn gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o archwiliadau Blaenau Gwent a Thorfaen fel hyfforddiant atgoffa ar gyfer staff y ddau Gyngor. Bydd cydymffurfiaeth barhaus â'r gofynion yn cael ei hasesu drwy fonitro mewnol. | | Cwblhawyd |
| 12.10 (i) Diwygio ei bolisi samplu i gynnwys manylion ei ddull o samplu bwyd yn ffurfiol, a sefydlu rhaglenni samplu safonau bwyd sy'n cydymffurfio â'r Codau Ymarfer priodol a'r canllawiau perthnasol. [Y Safon – 12.4] | Glas | **Hylendid Bwyd / Safonau Bwyd:** Bydd Cynllun Darparu Gwasanaeth Cyfraith Bwyd 2017/18 a chynlluniau'r dyfodol yn cynnwys datganiad mewn perthynas â dull yr Awdurdod o samplu ffurfiol.<br><br>**Safonau Bwyd:** Roedd rhaglen samplu ar gyfer safonau bwyd yn bodoli ar adeg yr archwiliad. Cynhyrchwyd rhaglen samplu ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddilynol. | | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 12.10 (ii) Adolygu, diwygio a gweithredu'n llawn ei weithdrefnau Samplu Bwyd yn unol â'r Codau Ymarfer a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5] | Glas | O ganlyniad i'r cydweithio rhwng Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Thorfaen, mae adolygiad o'r holl bolisïau/gweithdrefnau wedi'i gynllunio ar gyfer 2017/18 er mwyn cynhyrchu un fersiwn o bob dogfen, lle bynnag y bo'n rhesymol ymarferol. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys diwygio'r weithdrefn hylendid bwyd sy'n ymwneud â samplu, a bydd yn mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr archwiliad. | | Cwblhawyd |
| 13.9 (i) Sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i hysbysiadau am glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei gweithredu'n llawn ym mhob achos. [Y Safon -13.2] | Glas | **Hylendid Bwyd:** Datblygwyd gweithdrefn newydd cyn yr archwiliad wedi i'r Awdurdodei hun adnabod bod angen gwella'r dull o sicrhau bod achosion yn cael eu dyrannu i swyddogion mewn modd amserol, a safoni'r gofynion sylfaenol o ran cyswllt achosion. Roedd yr achosion a nodwyd yn yr archwiliad lle'r oedd angen gwelliant yn rhagddyddio gweithredu'r weithdrefn ddiwygiedig hon. | | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae'r weithdrefn ddiwygiedig yn parhau i fod ar waith. | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 15.10 (i) Dylai awdurdodau lleol sefydlu, cynnal a gweithredu polisi gorfodi cofnodedig, yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol eraill, a sicrhau bod y polisi'n cael ei gymeradwyo'n briodol. Dylai'r polisi gorfodi neu grynodeb cywir fod ar gael yn hawdd i'r cyhoedd a busnesau bwyd yn ei ardal. [Y Safon – 15.1] | Gwyrdd | Roedd polisi gorfodi cofnodedig ar waith ar gyfer Iechyd yr Amgylchedd (gan gynnwys hylendid bwyd), ac roedd wedi'i gymeradwyo'n briodol gan y Weithrediaeth. Profwyd hyn ar adeg yr archwiliad. Er bod polisi gorfodi ar waith ar gyfer Safonau Masnach (gan gynnwys safonau bwyd) a oedd wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol, cydnabuwyd bod cryn amser wedi mynd heibio ers i'r polisi hwn gael ei adolygu, ac yn ystod mis Medi 2013 pan ddaeth y ddau wasanaeth ynghyd o dan y drefn 'Diogelu'r Cyhoedd', cytunwyd y byddai safonau bwyd yn mabwysiadu polisi Iechyd yr Amgylchedd yn anffurfiol. O ganlyniad i'r cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, mae'r polisi gorfodi wedi'i adolygu gyda'r nod o greu un polisi gorfodi. Mae'r drafft wedi'i gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac yn mynd trwy'r broses gymeradwyo ffurfiol ar hyn o bryd. Bydd y polisi gorfodi newydd yn cynnwys meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl opsiynau gorfodi a'r trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth | Polisi wedi'i gymeradwyo ac ar gael i'r cyhoedd, ac wedi'i ddiwygio i gynnwys meini prawf ar gyfer rhai camau gorfodi, cyfeiriadau at eiddo a weithredir gan awdurdodau lleol a chynllun Prif Awdurdod. | Diwygio'r polisi i gynnwys meini prawf ar gyfer defnyddio hysbysiadau ffurfiol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | mewn sefydliadau lle mai'r awdurdod yw'r gweithredwr busnes bwyd. | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 15.10 (ii) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr holl gamau gorfodi sydd ar gael yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.2] | Glas | **Hylendid Bwyd / Safonau Bwyd:**<br>O ganlyniad i'r cydweithio rhwng Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Thorfaen, mae adolygiad o'r holl bolisïau/gweithdrefnau wedi'u cynllunio ar gyfer 2017/18 er mwyn cynhyrchu un fersiwn o bob dogfen – bydd hyn yn cynnwys gweithdrefnau sy'n ymwneud â chamau gorfodi. | | Cwblhawyd |
| 15.10 (iii) Sicrhau ei fod yn gallu dangos bod rhybuddion syml sy'n ymwneud â throseddau safonau bwyd yn cael eu gweinyddu yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.3] | Glas | Cynhaliwyd sesiwn friffio â swyddogion ar ôl yr archwiliad er mwyn trafod y prif faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliad a oedd yn cynnwys yr angen i sicrhau bod rhybuddion syml yn cael eu cofnodi'n gywir. Bydd cydymffurfiaeth barhaus â'r gofynion yn cael ei hasesu drwy fonitro mewnol. | | Cwblhawyd |
| 15.10 (iv) Sicrhau ei fod yn gallu dangos bod penderfyniadau ar gamau gorfodi mewn perthynas â throseddau safonau bwyd yn cael eu gwneud ar ôl ystyried ei Bolisi Gorfodi. [Y Safon – 15.4] | Glas | Cynhaliwyd sesiwn friffio â swyddogion ar ôl yr archwiliad er mwyn trafod y prif faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliad a oedd yn cynnwys yr angen i gwblhau rhestr wirio sy'n dangos bod y polisi gorfodi mewnol wedi'i ystyried. Bydd cydymffurfiaeth barhaus â'r | | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gofynion yn cael ei hasesu drwy fonitro mewnol. | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| Camau gweithredu ynghylch archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd sy'n ymwneud â llythyrau adroddiadau a mesurau diogelu | Glas | | | Cwblhawyd. |
| 16.9 (i) Sicrhau bod ffurflenni adrodd ar gyfer arolygiad safonau bwyd a ddarperir i fusnesau yn dilyn ymyriadau/arolygiadau yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1] | Glas | Cynhaliwyd sesiwn friffio â swyddogion ar ôl yr archwiliad er mwyn trafod y prif faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliad a oedd yn cynnwys sicrhau bod y ffurflenni ôl-arolygiad a roddir i'r busnes yn cael eu cwblhau'n llawn. Bydd cydymffurfiaeth barhaus â'r gofynion yn cael ei hasesu drwy fonitro mewnol. | | Cwblhawyd |
| 19.11 (i) Gweithredu'r weithdrefn fonitro fewnol gofnodedig ar gyfer hylendid bwyd yn llawn. [Y Safon – 19.1] | Glas | **Hylendid Bwyd:** Bu adolygiad pellach i'r drefn monitro mewnol ac mae gwaith yn parhau i weithredu hyn yn llawn. Mae'r Awdurdod yn rhan o'r gwaith parhaus i ddatblygu pecyn monitro mewnol gyda'r ASB a'r Panel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd, a bydd y trefniadau monitro mewnol yn cael eu hadolygu ymhellach o ganlyniad i'r gwaith hwn. Bydd un gweithdrefn monitro mewnol yn cael ei datblygu rhwng Blaenau Gwent a Thorfaen fel rhan o'r trefniadau gweithio ar y cyd. | | Cwblhawyd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 19.11 (ii) Datblygu, cynnal a gweithredu'r weithdrefn monitro mewnol gofnodedig ar gyfer safonau bwyd ymhellach, a hynny er mwyn gwirio ei bod yn cydymffurfio â'r Safon, deddfwriaeth gymwys, y Codau Ymarfer a'r canllawiau a gyhoeddir yn ganolog perthnasol, a'i bolisïau a'i weithdrefnau cofnodedig ei hun. [Y Safon – 19.1 ac 19.2] | Glas | **Safonau Bwyd:** Dechreuwyd gweithredu'r weithdrefn monitro mewnol yn llawn ar ôl yr archwiliad, ac mae gweithgareddau monitro mewnol yn parhau. Cydnabuwyd bod monitro mewnol yn cynnwys ymyriadau a chwynion ond nid oedd yn cynnwys camau samplu yn llawn. Eir i'r afael â hyn pan fydd un weithdrefn yn cael ei chynhyrchu yn dilyn cydweithio rhwng Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd Blaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. | | Cwblhawyd |
| 19.11 (iii) Sicrhau bod cofnodion monitro mewnol yn cael eu cadw am o leiaf 2 flynedd. | Glas | **Hylendid Bwyd / Safonau Bwyd:** Mae cofnodion o weithgarwch monitro mewnol bellach yn cael eu cadw am o leiaf 2 flynedd. | | Cwblhawyd |

Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **26** |
| **Cwblhawyd** | **25** |
| **Cynnydd da** | **1** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **0** |
| **Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu** | **0** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm heb ei gyflawni** | **1** |